**COFNOD A BENDERFYNIADAU GWEITHREDOL**

**Y CABINET**

**DYDD MERCHER, 20 MEDI 2023**

**Cabinet Members:**

Cynghorwyr:: S.K.Hunt (Cadeirydd), N.Jenkins, J.Hurley, J.Hale, W.F.Griffiths a/ac C.Phillips

**Swyddogion yn bresennol:**

K.Jones, A.Jarrett, N.Pearce, N.Daniel, H.Jones, C.Griffiths, S.Brennan, S.Rees, C.Saunders, C.Furlow-Harris, K.Davies, S.Davies, D.A.Lewis, L.McAndrew, L.Willis, N.Blackmore, A.Thomas a/ac J.Woodman-Ralph

**Scrutiny Chair and Vice Chair:** Councillors P.Rogers and C.Jordan

---

1. **PENODI CADEIRYDD**

   Cytunwyd i benodi'r Cynghorydd S K Hunt yn Gadeirydd ar gyfer y cyfarfod.

2. **CYHOEDDIAD Y CADEIRYDD**

   Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

3. **DATGANIADAU O FUDDIANNAU**

   Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

4. **COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL**

Bod cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 28 Mehefin yn cael eu cymeradwyo fel cofnod cywir.

5. **BLAENRAGLEN WAITH 2023/24**

Nodwyd y Flaenraglen Waith.

6. **AMSER CWESTIYNAU CYHOEDDUS**

Ni ofynnwyd unrhyw gwestiynau gan y cyhoedd.

7. **RHAGOLWG**

**Penderfyniad:**

Nodi'r adroddiad, a sefydlu Panel Strategaeth y Gyllideb, gyda'r cylch gorchwyl a'r aelodaeth a nodwyd yn Atodiad 1 i'r adroddiad a ddosbarthwyd.

**Rheswm dros y penderfyniad:**

I sicrhau bod pob grŵp gwleidyddol yn cael cyfle ffurfiol i lunio cynigion cyllideb ar gam ffurfiannol, sy'n ychwanegol at y mecanweithiau sydd eisoes yn bodoli. Bydd hyn yn rhoi cyfleoedd ar gyfer ymgysylltu gwleidyddol ehangach ar adeg pan fo maint y gyllideb yn heriol ac mae lefel y risg a'r ansicrwydd yn sylweddol. Bydd hyn yn lliniaru'r amserlen gyddwysedig sy'n debygol o fod yn angenrheidiol os yw llywodraethau'r DU a Chymru yn darparu hysbysiadau hwyr iawn o'r gyllideb sydd ar gael, fel y nodir ar hyn o bryd.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau.

8. **YMATEB Y CYNGOR I GANFYDDIADAU ARCHWILIAD GOSOD AMCANION LLES ARCHWILIO CYMRU**

**Penderfyniad:**

Cymeradwyo ymateb y Cyngor i Swyddfa Archwilio Cymru – Gosod Amcanion Lles – Cyngor Castell-nedd Port Talbot, fel y nodir yn Atodiad 2 i'r adroddiad a ddosbarthwyd.

**Rheswm dros y penderfyniad:**

Er mwyn galluogi'r cyngor i roi'r trefniadau angenrheidiol ar waith i gefnogi'r gwaith o gyflawni ei amcanion lles yn effeithiol ac i fod yn atebol amdanynt.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau.

9. **GORYMDEITHIAU COFFA - CASTELL-NEDD A PHORT TALBOT**

**Penderfyniadau:**

1. Bydd y cyngor yn gweithredu fel 'Trefnydd Digwyddiadau' ar gyfer Gorymdeithiau Cofio a gynhelir ym Mhort Talbot a Chastell-nedd yn flynyddol ar Sul y Cofio.

2. Dyrannu cyfraniad o gronfeydd wrth gefn gwerth £18k yn ystod 2023/24 i gefnogi'r Gorymdeithiau Cofio a gynhelir ym Mhort Talbot a Chastell-nedd.

3. O 2024/25, bydd dyraniad cyllideb ar gael, i gefnogi'r Gorymdeithiau Cofio, yn flynyddol ar Sul y Cofio.

**Rheswm dros y penderfyniadau:**

I sicrhau bod gorymdeithiau Sul y Cofio hirsefydlog a chefnogaeth eang ym Mhort Talbot a Chastell-nedd yn parhau.

**Rhoi'r Penderfyniadau ar Waith:**

Caiff y penderfyniadau eu rhoi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau.

**Ymgynghoriad:**

Cynhaliwyd ymgynghoriad â rhanddeiliaid allweddol.

10. **STRATEGAETHAU DIWYLLIANT A CHYRCHFANNAU**

**Penderfyniad:**

Mabwysiadu'r Strategaethau Cynllun Rheoli Diwylliant a Chyrchfannau (fel a nodir yn Atodiadau A a B).

**Rheswm dros y penderfyniad:**

Er mwyn galluogi cyflawni Amcan Lles 3 y cyngor; Gall cenedlaethau'r dyfodol fwynhau ein hamgylchedd, ein diwylliant a'n treftadaeth leol.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau.

**Ymgynghoriad:**

Cynhaliwyd ymgynghoriad allanol ar yr eitem hon.

11. **STRATEGAETH TREFTADAETH***

**Penderfyniad:**

Bydd y timau Adfywio a Threftadaeth yn cynnal ymarfer ymgynghori cyhoeddus ar gyfer dogfen y Strategaeth Dreftadaeth (fel a nodir yn Atodiad – Strategaeth Dreftadaeth) yn ystod mis Medi a mis Hydref 2023, a chyflwyno adroddiad dilynol i'r Cabinet, yn dilyn ymgynghoriad, i'w fabwysiadu.

**Rheswm dros y penderfyniad:**

I lywio'r ddogfen Strategaeth derfynol gyda'n rhwymedigaethau a'n gofynion i warchod ein treftadaeth leol ac i'n galluogi i gyflawni Amcan Lles 3: Gall cenedlaethau'r dyfodol fwynhau ein hamgylchedd, ein diwylliant a'n treftadaeth leol.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau.

**Ymgynghoriad:**

Mae'r eitem hon wedi bod yn destun ymgynghoriad allanol.

## 12. CHWARTER 1 - MONITRO'R GYLLIDEB REFENIW

**Penderfyniadau:**

1. Nodi cynnwys yr adroddiad hwn mewn perthynas â sefyllfa alldro'r gyllideb a’r cronfeydd wrth gefn amcanol presennol.

2. Cymeradwyo'r trosglwyddiadau a nodir ym mhrif gorff yr adroddiad a ddosbarthwyd.

3. Nodi'r cynnydd yn erbyn yr arbedion y cytunwyd arnynt.

4. Bydd swyddogion yn ceisio rhoi mesurau arbed costau ychwanegol a chynhyrchu incwm ar waith er mwyn lleihau'r sefyllfa bresennol o orwario - dim ond lle gellir eu cyflawni o fewn fframweithiau polisi presennol.

**Rheswm dros y penderfyniadau:**

I gydymffurfio â chyfansoddiad y cyngor mewn perthynas â'r gyllideb ar gyfer trosglwyddiadau.

**Rhoi'r Penderfyniadau ar Waith:**

Caiff y penderfyniadau eu rhoi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau.

## 13. CHWARTER 1 - MONITRO'R GYLLIDEB GYFALAF

**Penderfyniadau:**

1. Cymeradwyo cyllideb 2023/24 sy'n dod i gyfanswm o £93.489m.

2. Nodi'r sefyllfa mewn perthynas â gwariant ar 30 Mehefin 2023.

**Rheswm dros y penderfyniadau:**

I gydymffurfio â chyfansoddiad y cyngor mewn perthynas â throsglwyddo'r gyllideb, ailbroffilio rhwng blynyddoedd ariannol a diweddaru amcanestyniadau cyllideb y cyngor ar gyfer 2023/24.

**Rhoi'r Penderfyniadau ar Waith:**

Caiff y penderfyniadau eu rhoi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau.

## 14. MONITRO RHEOLI'R TRYSORLYS

**Penderfyniad:**

Bod yr adroddiad monitro'n cael ei nodi.

## 15. CHWARTER 1 - DANGOSYDDION PERFFORMIAD - 23/24

**Penderfyniad:**

Bod yr adroddiad monitro'n cael ei nodi.

## 16. ADRODDIAD BLYNYDDOL CANMOLIAETH A CHWYNION 2022-2023

**Penderfyniad:**

Bod yr adroddiad monitro'n cael ei nodi.

## 17. LLYTHYR BLYNYDDOL YR OMBWDSMON 2022/2023

**Penderfynwyd:**

Nodi’r adroddiad.

## 18. EITEMAU BRYS

Ni dderbyniwyd unrhyw eitemau brys.

19. **MYNEDIAD I GYFARFODYDD - GWAHARDD Y CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD:** Yn unol â Rheoliad 4(3) a (5) Offeryn Statudol 2001 Rhif 2290, gwaherddir y cyhoedd ar gyfer yr eitem fusnes ganlynol a oedd yn debygol o gynnwys datgelu gwybodaeth eithriedig fel a diffinnir ym Mharagraff 14 Rhan 4 Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

20. **CRONFA FFYNIANT GYFFREDIN Y DU (YN EITHRIEDIG O DAN BARAGRAFF 14)**

**Penderfyniadau:**

Ar ôl rhoi sylw dyladwy i'r Asesiad Effaith Integredig:

1. Bydd y prosiectau a restrir yn Atodiad 1 i'r adroddiad a ddosbarthwyd, a gyflwynwyd o dan Alwad Agored Prosiectau Strategol Castell-nedd Port Talbot, yn cael eu cymeradwyo, ar yr amod bod asesiadau Rheoli Cymhorthdal yn cael eu cymeradwyo gan y Pennaeth Eiddo ac Adfywio.

2. NI FYDD y prosiectau a restrir yn Atodiad 2 i'r adroddiad a ddosbarthwyd, a gyflwynwyd o dan Alwad Agored Prosiectau Strategol Castell-nedd Port Talbot, yn cael eu cymeradwyo.

3. Mewn perthynas â'r cyllid Prosiectau Strategol nas dyrannwyd, ac yn dilyn arfarniad o'r cyllid sydd ar gael, rhoi awdurdod dirprwyedig i Gyfarwyddwr yr Amgylchedd ac Adfywio, mewn ymgynghoriad â'r Prif Swyddog Cyllid, yr Arweinydd ac Aelod/Aelodau Perthnasol y Cabinet, lansio galwad agored bellach am Brosiectau Strategol neu gronfa Prosiectau Strategol amgen.

**Rheswm dros y penderfyniadau:**

Er mwyn galluogi Cyngor Castell-nedd Port Talbot i roi Cynllun Gweithredu Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU ar waith a hysbysu ymgeiswyr Prosiectau Strategol o benderfyniad cyllido'r alwad agored.

**Rhoi'r Penderfyniadau ar Waith:**

Caiff y penderfyniadau eu rhoi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau.

**CADEIRYDD**